

Cyfarfod Bwrdd Eithriadol Cymwysterau Cymru QWB30E

Cofnodion Cyfarfod Eithriadol y Bwrdd a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2020

Mynychwyr: David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Ellen Donovan, David W Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

Yn Bresennol: Jo Richards (JR) am ran o'r cyfarfod, Tom Anderson (TA), Mark Hogan (MH), Kate-Stokes Davies (KSD), Kay Powell (EKP), Kerry Davies (KD), Alison Standfast (AS), Emyr George (EG)

Ymddiheuriadau: Claire Morgan (eitem 2), Angela Maguire-Lewis, Arun Midha (eitem 3), Jo Valentine - Llywodraeth Cymru.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2. Nodwyd ymddiheuriadau fel sydd i'w gweld uchod, gan i Claire Morgan, Angela Maguire-Lewis ac Arun Midha ddatgan gwrthdrawiad buddiannau.
- 1.3. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant newydd.
- 1.4. Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd i roi cymeradwyaeth amodol i'r modelau safoni arfaethedig ar gyfer Safon Uwch a Safon UG, adroddwyd i'r cyfarfod bod CBAC wedi rhoi sicrwydd pellach fel y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod blaenorol. Dywedodd y Cadeirydd wrth y cyfarfod y byddai'n anfon rhagor o wybodaeth at yr aelodau am hyn.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Y Cadeirydd i anfon e-bost at aelodau'r Bwrdd

2. Cyfres Arholiadau 2021

- 2.1. Cyflwynodd PB yr eitem, gyda KD yn cefnogi. Roedd y dull o ystyried addasiadau yn debyg i'r un a ddefnyddiwyd eleni yn y fframwaith rheoleiddio arbennig ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, lle y cafodd cymwysterau naill ai eu dyfarnu drwy gyfrifo, eu haddasu neu y gohiriwyd dyfarniadau. Edrychwyd ar addasiadau i gymwysterau cyffredinol ar gyfer 2021 i gydnabod pryderon rhanddeiliaid a godwyd ynghylch colli amser addysgu i ddysgwyr sy'n dilyn TGAU, Safon Uwch ac UG a Thystysgrif Her Sgiliau.

- 2.2. Dywedodd PB y collwyd hyd at 25 – 30% o oriau dysgu ers y tarfwyd ar ddysgu rheolaidd pan gaeodd ysgolion ar 20 Mawrth. Disgwylir i ysgolion ddychwelyd o fis Medi er y bydd dysgwyr wedi bod y tu allan i batrymau dysgu rheolaidd am hyd at 6 mis.
- 2.3. Dywedodd PB fod y Pwyllgor Rheoleiddio wedi ystyried y mater ar 1 Mehefin a 18 Mehefin.
- 2.4. Roedd PB wedi cyfarfod â'r Gweinidog Addysg ar 22 Mehefin ac wedi trafod y papur a adolygwyd gan gyfarfod y Pwyllgor Rheoleiddio ar 18 Mehefin. Roedd y Gweinidog yn glir bod pwysau cymdeithasol i ddychwelyd i'r arfer, ac felly y dylai arholiadau barhau yr Haf nesaf. Roedd y Gweinidog yn gefnogol i drefniant lle byddai Cymwysterau Cymru'n ystyried addasiadau i wneud yr arholiadau hynny mor deg â phosibl. Anogodd y Gweinidog Cymwysterau Cymru i weithio gyda CBAC fel bod gan ysgolion a cholegau wybodaeth am addasiadau cyn diwedd Tymor yr Haf. Roedd hefyd am i Cymwysterau Cymru weithio ar amgylchiadau annisgwyl rhag ofn y byddai arholiadau'n anymarferol yr haf nesaf.
- 2.5. Esboniodd PB mai'r cynnig oedd creu Amodau Arbennig ar gyfer 2021, gyda chanllawiau ac egwyddorion yn nodi'r paramedrau i'w cymhwyso i addasiadau gyda chymaint o hyblygrwydd â phosibl.
- 2.6. Amlinellodd PB y cais i'r Bwrdd sefydlu'r Amodau Arbennig a'r ddogfen reoleiddio. Oherwydd yr amserlenni, byddai cydymffurfiaeth CBAC yn cael ei gwirio yn erbyn egwyddorion a pharamedrau, yn hytrach na bod Cymwysterau Cymru'n cymeradwyo newidiadau i bob cymhwyster yn fanwl. Byddai hyn yn cael ei wneud ar gyfer arholiadau mwy dylanwadol ac arholiadau â chofrestriad uchel a thrwy samplu ar draws pob pwnc i sicrhau bod yr addasiadau'n briodol.
- 2.7. Hysbyswyd y cyfarfod bod ystyriaeth wedi'i rhoi i ymgynghori ar y cynigion, ond y byddai hyn yn atal y posibilrwydd o rannu gwybodaeth gydag ysgolion cyn diwedd tymor yr haf. Roedd Ofqual yn ymgynghori am 14 diwrnod ond nid oedd disgwyl iddo rannu ei wybodaeth yn nhymor yr Haf. Gan fod Cymwysterau Cymru'n bwriadu pennu'r paramedrau yn hytrach na chymeradwyo'r newidiadau manwl, dim ond y paramedrau lefel uchel hyn fyddai testun unrhyw ymgynghoriad. Roedd CBAC eisoes yn cymryd barn athrawon pwnc mewn ysgolion a cholegau ar ei addasiadau arfaethedig, drwy ei wefan ddiogel.
- 2.8. Nododd PB nad oedd Ofqual yn cynnig llawer o addasiadau.
- 2.9. Esboniodd PB fod y dull yn ceisio rhoi hyblygrwydd i CBAC fynd cyn belled â phosibl i fynd i'r afael â'r cyd-destun ar gyfer carfan 2021, gan gadw gwerth y cymwysterau drwy eu dilysrwydd a'u dibynadwyedd. Credai efallai y byddai angen i Loegr ailedrych ar ei dull gweithredu ac roedd am osgoi ansicrwydd yng Nghymru. Roedd rhanddeiliaid am gael eglurder cyn gynted â phosibl er mwyn cynllunio.

- 2.10. Gwahoddwyd y Bwrdd i gymeradwyo'r Amodau Arbennig yn Atodiad 4 gyda'r diwygiad i'r Amod Arbennig cyntaf a'r gofynion ar gyfer addasu asesiadau yn Atodiad 5.
- 2.11. Oherwydd yr angen i weithredu cyn gynted â phosibl, a fyddai fel arfer yn fater i'r Pwyllgor Rheoleiddio ei gymeradwyo o dan bwerau dirprwyedig, nodwyd bod y penderfyniad wedi'i gyflwyno i'r cyfarfod hwn.
- 2.12. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod llythyr y Gweinidog wedi'i anfon at yr aelodau ac y byddai papur yn adolygu'r penderfyniad cynharach i beidio â chynnal Cyfres yr Hydref yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.
- 2.13. Agorodd y Cadeirydd drafodaeth. Roedd yr aelodau'n pryderu am y cynnig i beidio ag ymgynghori. Trafodwyd opsiwn i rannu'r newidiadau arfaethedig yn amodol ar ymgynghoriad ddechrau'r Hydref.
- 2.14. Trafododd aelodau'r Bwrdd y rhinweddau a'r materion yn gysylltiedig ag ymgynghoriad. Byddai ymgynghori yn cyd-fynd â'r dull gweithredu yn Lloegr a gallai gynyddu hyder y cyhoedd. Fodd bynnag, byddai peidio ag ymgynghori yn golygu y gallai ysgolion a cholegau gynllunio'n briodol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nododd PB fod pwysau o du rhanddeiliaid i gael eglurder. Gallai fod problemau o ran ailafael mewn ymddygiadau dysgu ac roedd pryder am hyn. Nodwyd ei bod yn ofynnol i Ofqual ymgynghori yn ôl ei ddeddfwriaeth, ac nad oedd hynny'n wir am Cymwysterau Cymru. Nid oedd y Cadeirydd yn argyhoeddedig y dylid cynnal ymgynghoriad yng nghyd-destun yr amserlenni tynn a chwmpas cyfyngedig ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar yr Amodau Arbennig.
- 2.15. Yn dilyn y drafodaeth, gofynnodd y Cadeirydd am farn pob aelod o'r Bwrdd a chofnododd fod y Bwrdd o'r farn na ddylid ymgynghori. Cofnodwyd mai penderfyniad y mwyafrif oedd hwn.
- 2.16. Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ynghylch beth fyddai'n digwydd pe bai'r dysgu'n gostwng i lefel mor isel fel nad oedd yn ymarferol sefyll arholiad.
- 2.17. Dywedodd PB y byddai cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda swyddogion y llywodraeth drwy gydol yr Hydref gyda phwyntiau adolygu gyda'r Gweinidog ym mis Hydref, Rhagfyr a Chwefror. Byddai Cymwysterau Cymru'n gweithio ar ddatblygu opsiynau ar gyfer gwahanol senarios. Nodwyd y byddai goblygiadau enfawr os nad yw'n bosibl dyfarnu cymwysterau. Gallai fod pwynt pan fydd y Bwrdd yn hysbysu'r Gweinidog nad yw'n bosibl dyfarnu cymwysterau.
- 2.18. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd rai cwestiynau am eiriad yr egwyddorion. Cafwyd ymholiad ynghylch egwyddor 3 yn Atodiad 5. Esboniodd JR mai'r dull asesu mewn unrhyw flwyddyn arferol oedd bod cynnwys yn cael ei samplu o'r fanyleb, ond bod mwy o arweiniad yma ynghylch beth fyddai'r cynnwys hwnnw yn ôl pob tebyg mewn asesiad. Nid yw Cymwysterau Cymru'n caniatáu i CBAC ailgyhoeddi'r fanyleb gyda llai o gynnwys: mae'r addasiadau'n ymwneud â'r asesiadau ar ddiwedd y cwrs. Y bwriad yw bod y ganolfan yn parhau i addysgu'r cynnwys llawn. Hysbyswyd y

cyfarfod hefyd na all pwysoliad gwrthrychol asesiadau newid heb newid yn y galw y byddai angen rhoi gwybod i Cymwysterau Cymru amdano.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

1. Cymeradwyodd y Bwrdd y dull gweithredu ar gyfer cyfres arholiadau haf 2021 ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon Uwch a Thystysgrifau Her Sgiliau (cymwysterau GQ), gan nodi y bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol i'n dogfennau rheoleiddio yn cael eu cymeradwyo gan y pwyllgor rheoleiddio yn y ffordd arferol.

3. Cymeradwyo Modelau Safoni TGAU cam 2 a 3 ar gyfer Haf 2020

- 3.1. Cyflwynodd PB yr eitem gan geisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y model ystadegol ar gyfer safoni ar gyfer TGAU cam 2 a 3 (ac eithrio Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl). Atgoffwyd y cyfarfod y byddai cyfarfod Bwrdd ychwanegol i ystyried Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl, cymwysterau TGAU cam 1 a Thystysgrifau Her Sgiliau. Darparodd PB grynodedd ar safoni. Yn gyntaf, mae canolfannau'n cyflwyno data asesu'r ganolfan (gradd asesu'r ganolfan a'r drefn restrol). Nesaf, dyrennir set o raddau i ganolfan gan ddefnyddio'r model safoni a ddewiswyd, yna dosberthir graddau i unigolion gan ddefnyddio'r drefn restrol a ddarparwyd gan y ganolfan.
- 3.2. Esboniodd PB mai'r mater i'w ystyried oedd cam un y broses safoni – dyrannu set o raddau i ganolfan. Atgoffwyd y Bwrdd bod y model NCUC¹ wedi'i gytuno ar gyfer Safon Uwch a DCP ar gyfer Safon UG. Nodwyd bod cymwysterau TGAU yn amrywio o ran dyluniad rhwng cymwysterau llinol a modiwlaid, felly roedd yn debygol y byddai angen modelau gwahanol. Ar gyfer cymwysterau TGAU llinol, sef y rhan fwyaf o gymwysterau yng Ngham Dau a Cham Tri, ni ellid defnyddio'r model NCUC, felly'r mater dan sylw oedd ystyried amrywiolyn gorau y model DCP.
- 3.3. Esboniodd PB mai'r prif fater oedd pa ddata y gellid ei ddefnyddio i bennu cyrhaeddiad blaenorol carfan y ganolfan fel bod dyraniad y graddau yn adlewyrchu eu gallu yn y modd cywiraf posibl.
- 3.4. Roedd tîm Ymchwil ac Ystadegau Cymwysterau Cymru wedi bod yn edrych ar ddata Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, gan gynnwys data asesiadau athrawon ar ddiwedd data Cyfnod Allweddol 3 a Phrofion Cenedlaethol Blwyddyn 9. Dangosodd yr ymchwil fod cydberthynas gref rhwng asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 3 a Phrofion Blwyddyn 9 a chyrhaeddiad TGAU. Adolygwyd y gwaith ymchwil hwn gan ddau ystadegydd a TA o fewn Cymwysterau Cymru a chafwyd adolygiad gan gymheiriaid gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru.
- 3.5. Dywedwyd wrth y cyfarfod fod rhywfaint o anghytundeb o ran defnyddio'r data hwn. Er bod rhai rhanddeiliaid o'r farn na ddylid defnyddio'r data wrth safoni, roedd cydnabyddiaeth mai dyma'r unig ffordd o addasu record hanesyddol canolfan i

¹ A elwir y model DLP bellach, sef Perfformiad Uniongyrchol y Dysgwr (Direct Learner Performance)

adlewyrchu gallu'r garfan eleni. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddefnyddio'r data at y diben hwn.

- 3.6. Dywedodd PB fod dewis mewn modelau ar gyfer cymwysterau unedol oherwydd bod rhywfaint o gyrhaeddiad blaenorol o unedau blaenorol, ond nad oedd hynny'n golygu'n awtomatig mai'r model NCUC oedd fwyaf priodol. Esboniodd TA rai o'r rhesymau pam yr oedd CBAC wedi cynnig dulliau gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys lle'r oedd unedau blaenorol yn asesiadau llafar yn unig neu lle'r oedd anghysondeb o ran pa unedau yr oedd gwahanol ganolfannau wedi'u cymryd. Roedd Cymwysterau Cymru o'r farn ei bod yn well cael model cyson o fewn pynciau ac, ar ôl trafod manylion gyda CBAC, roedd swyddogion yn fodlon â'r cynnig y dylid defnyddio'r model DCP ar gyfer rhai pynciau unedol.
- 3.7. O ran safon UG, atgoffodd PB y Bwrdd fod CBAC yn bwriadu defnyddio dull canolfannau bach: ar gyfer 5-15 o gofrestriadau, byddai mwy o bwysoliad ar gyfer graddau asesu canolfannau ac ar gyfer llai na 5 cofrestriad, byddai gradd asesu'r ganolfan yn cael ei dyfarnu. Y rheswm am hyn yw bod yr ystadegau'n mynd yn llai dibynadwy ar gyfer canolfannau bach. Fodd bynnag, roedd hyn yn annhebygol o fod yn broblem fawr i gymwysterau TGAU lle'r oedd nifer y cofrestriadau'n fwy tebygol o fod yn fwy na 15 ymgeisydd.
- 3.8. Dywedodd PB fod y cynnig wedi'i ystyried gan Fwrdd Rheoli Cymwysterau Cymru, ac fe'i hargymhellodd i'r Bwrdd. O ran cysondeb rhwng awdurdodaethau, ychwanegodd TA fod y model DCP sy'n cael ei gynnig gan CBAC yn cael ei ddefnyddio ar draws pob cymhwyster yn Lloegr ac ar draws nifer o gymwysterau yng Ngogledd Iwerddon. Roedd achos clir i ymwahanu oddi wrth y model DCP mewn perthynas â gwyddorau sengl, ond nid ar gyfer pynciau eraill.
- 3.9. Nododd y Cadeirydd fod y papur yn dangos sut y cododd Cymwysterau Cymru faterion gyda CBAC a lle y newidiwyd cynigion o ganlyniad. Cyflwynwyd papur CBAC i'w gymeradwyo.
- 3.10. Diolchodd yr aelodau i'r tîm Gweithredol am ei waith, am gasglu sylwadau ar fethodoleg llywodraethu a samplu gyda CBAC ac am fynd ar drywydd y pwyntiau tyngedfennol ar y dewis o fodel ar gyfer rhai cymwysterau unedol.
- 3.11. Nododd yr aelodau fod y drefn restrol yn ganolog a nodwyd y posibilrwydd o ddiffygion yn y drefn restrol. Dywedodd PB fod yn rhaid i'r ysgol fod yn atebol am drefn restrol ei disgyblion. Datblygwyd y mecanwaith apelio ar y sail hon. Nodwyd hefyd na ellid apelio i CBAC ar radd asesu'r ganolfan, gan gynnwys sail yr asesiad, gan na fyddai'n rhesymol i CBAC ddyfarnu ar benderfyniadau a wneir gan y ganolfan. Felly, pe bai dysgwr yn anhapus â gradd asesu'r ganolfan (CAG) neu sut y cafodd ei gyfrifo, yna byddai angen iddo wneud cwyn i'w ganolfan.
- 3.12. Holodd yr aelodau a oedd unrhyw amgylchiadau lle na ellir cadw'r drefn restrol. Dywedodd TA fod Cymwysterau Cymru'n glir bod cadw'r drefn restrol yn rhan hanfodol o'r model a bod hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad penderfyniadau. Roedd hyn wedi'i ystyried wrth edrych ar Safon Uwch.

- 3.13. Gofynnodd yr aelodau a ellid gwneud rhagor i sicrhau ansawdd Graddau Asesu Canolfannau (CAGs). Dywedwyd wrth yr aelodau y bu'n ofynnol i ganolfannau ddefnyddio barn broffesiynol dau athro i sefydlu CAGs a bod Pennaeth y Ganolfan yn tystio i'w cywirdeb. Teimlwyd bod dau ffactor wedi lliniaru unrhyw sicrwydd ansawdd – yn gyntaf yr amser a oedd ar gael i CBAC i wneud hynny ac yn ail y sail a ddefnyddiwyd ar gyfer gwneud a derbyn unrhyw her o'r fath.
- 3.14. Roedd ymholiad ynghylch a allai apeliadau arwain at newid yn y drefn restrol. Dywedodd PB y gallai apêl arwain at newid yn y drefn restrol lle'r oedd camgymeriad wedi'i wneud gan y ganolfan ar sail 'data anghywir' ac y byddai unigolion nad oeddent wedi'u henwi mewn apêl wedi'u diogelu rhag cael eu hisraddio.
- 3.15. Nododd yr aelodau nad oedd pwnc Addysg Gorfforol wedi'i fodelu. Dywedodd TA fod gan Addysg Gorfforol strwythurau tebyg i Ddrama ar gyfer asesu yn y cymhwyster a'r cynnig oedd ei drin yr un fath.
- 3.16. Gan nodi gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn Atodiad 2, gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw bryderon mewn perthynas â materion cydraddoldeb. Dywedodd TA fod cam 1 yn rhoi'r set o raddau, ond nid pwy fyddai'n cael y graddau hynny, a oedd yn cael ei bennu gan y drefn restrol a gâi ei darparu gan y ganolfan. Roedd rhai gwahaniaethau rhwng y rhywiau, ond nid oeddent yn systematig o fewn y model. Fel y trafodwyd yng nghyfarfodydd cynharach y Bwrdd, pe bai tystiolaeth o fylchau mwyfwy mewn cyrhaeddiad, yna gellid ystyried codi ffiniau graddau o fewn y cyd-destun 'tebyg ar y cyfan'. Nododd TA fod gwahaniaethau bob blwyddyn ac nad yw gwahaniaeth yn brawf awtomatig o 'duedd'. Byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud yn y cyfarfodydd Cynnal Safonau a gynhelir rhwng Cymwysterau Cymru a CBAC.
- 3.17. Holodd yr aelodau a oedd Cymwysterau Cymru, ar ôl dadansoddi budd defnyddio data Cyfnod Allweddol 3, wedi dod yn rhy agos at weithredoedd CBAC. Dywedodd PB fod angen i Cymwysterau Cymru ddatblygu barn annibynnol ar y berthynas rhwng data Cyfnod Allweddol 3 a chanlyniadau TGAU i benderfynu a oedd y data'n ddefnyddiol. Nid oedd CBAC wedi cael gwybod sut i ddefnyddio'r data ac roedd wedi cynnal ei ddadansoddiad ei hun i lunio ei gynigion.
- 3.18. Y camau nesaf fyddai cymeradwyo graddau ddiwedd mis Gorffennaf ar gyfer Safon UG a Safon Uwch a dechrau mis Awst ar gyfer TGAU. Byddai CBAC yn rhedeg y modelau safoni i ddyfarnu graddau cyn darparu data i Cymwysterau Cymru.
- 3.19. Dywedodd PB y byddai cynllun cyfathrebu yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf.
- 3.20. Dywedodd KD wrth y Bwrdd fod CBAC yn rhannu ei adroddiadau penderfyniadau o gyfarfodydd dyfarnu gyda Cymwysterau Cymru. Fel mewn blynyddoedd arferol, byddai Cymwysterau Cymru'n monitro cyfarfodydd dyfarnu CBAC. Roedd Cymwysterau Cymru wedi monitro'r cyntaf o'r cyfarfodydd hyn ar gyfer Safon Uwch yn gynharach y diwrnod hwnnw.

- 3.21. Nododd y Cadeirydd fod cefnogaeth unfrydol i'r cynigion (a gadarnhawyd gan yr aelodau ar lafar neu ar swyddogaeth "sgwrsio" MS Teams), ac fe'u cymeradwywyd.
- 3.22. Diolchodd y Cadeirydd i TA a PB a nododd y gweithgarwch gan CBAC a oedd yn gweithio o fewn amserlenni tynn.
- 3.23. Nododd aelodau'r Bwrdd yr angen i fonitro unrhyw newidiadau mewn dull gweithredu mewn awdurdodaethau eraill. Nodwyd bod pedwar cyfarfod rheoleiddwyr gwlad yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar lefel Prif Swyddog Gweithredol a bod sefyllfa Ofqual a CCEA wedi'i hystyried yn y papurau.
- 3.24. Diolchodd yr aelodau i'r weithrediaeth am ei gwaith. Mynegwyd pryder am les pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith oherwydd y gofynion amser ychwanegol sylweddol, a chymhlethdod ac arwyddocâd cyhoeddus cenedlaethol y materion dan sylw.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Cymeradwyodd y Bwrdd gynigion CBAC ar gyfer y prif brosesau safoni ystadegol
 - a. Y dylid defnyddio'r dull gweithredu **Carfan Uned wedi'i Chwblhau wedi'i Normaleiddio (NCUC)** fel y prif fodel safoni ar gyfer TGAU Bioleg, Cemeg a Ffiseg.
 - b. Y dylid defnyddio'r **Dull Gweithredu Perfformiad Uniongyrchol Canolfan (DCP)** fel y prif fodel safoni ar gyfer y cymwysterau dyfarniad sengl TGAU, Cam Dau a Thri sy'n weddill.

Diwedd